# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 26/09/2024 i'w hateb ar 01/10/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ61592 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar flaenoriaethau gofal iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Gaerfyrddin?

**Lee Waters** *Llanelli*

2 OQ61613 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghylch mynediad at ofal iechyd yn Llanelli?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

3 OQ61625 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith y gwaharddiad ar ysmygu ar dir ysbytai?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

4 OQ61616 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer rhyddhau cleifion y mae eu cyflyrau wedi'u hoptimeiddio'n feddygol o ysbytai yn rhanbarth Canol De Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

5 OQ61626 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella'r rhwydwaith priffyrdd presennol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

6 OQ61629 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth y ddinas?

**Buffy Williams** *Rhondda*

7 OQ61627 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi rhagor o fanylion am addewid 'cyfle i bob teulu' Llywodraeth Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

8 OQ61624 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i leoliadau diwylliannol yn Nwyrain De Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

9 OQ61607 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd ym Mhowys?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ61591 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith y gostyngiad treth gyngor person sengl ar gyllidebau aelwyd yng Nghymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OQ61628 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

12 OQ61599 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cleifion canser?

## Y CWNSLER CYFFREDINOL A’R GWEINIDOG CYFLAWNI

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

1 OQ61602 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith y DU ynglŷn ag adroddiad Cymdeithas y Cyfreithwyr From Caernarfon to Caerdydd: Reimagining Justice in Wales 2030?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

2 OQ61596 **(e)**

Sut y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn sicrhau bod yr Ysgrifenyddion Cabinet yn cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

3

## OQ61589 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol , y Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dilyn cynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghaerdydd?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4

## OQ61598 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gynnal cwestau i farwolaethau cynenedigol?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

5

## OQ61601 (e)

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar yr amserlen ar gyfer cyflenwi deddfwriaeth diogelwch tomenni glo o fewn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

6

## OQ61590 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â gwneud canolfannau cyswllt plant yng Nghymru yn ddi-dâl ar adeg eu defnyddio i rieni ac aelodau eraill o'r teulu?